IS-DDEDDFWRIAETH

# 2021 Rhif (LlC21-46)

# DEDDF Y CORONAFEIRWS 2020

## Hysbysiad Addasu a Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru (Rhif 2) 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

**Addasu gofynion y cwricwlwm**

**1.** Mae'r deddfiadau a ganlyn wedi eu haddasu, am y cyfnod a bennir ym mharagraff 3, yn y modd a ddisgrifir yn y tabl ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020—

(a) adran 43 o Ddeddf Addysg 1997(**2**) (darparu addysg gyrfaoedd mewn ysgolion yng Nghymru);

(b) adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**) (dyletswydd i sicrhau darpariaeth ddyladwy addysg grefyddol);

(c) adran 101 o Ddeddf Addysg 2002(**4**) (cwricwlwm sylfaenol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru);

(d) adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 (sefydlu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru drwy orchymyn), mewn perthynas ag unrhyw ddyletswydd a osodir ar berson gan—

(i) Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013(**5**);

(ii) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r

(**1**) 2020 p. 7.
(**2**) 1997 p. 44.
(**3**) 1998 p. 31.
(**4**) 2002 p. 32.
(**5**) O.S. 2013/433 (Cy. 51).

Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014(**1**);

(iii) Rhan 3 (a Rhan 1 i'r graddau mae'n ymwneud â Rhan 3) o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015(**2**);

(e) adran 109 o Ddeddf Addysg 2002 (gweithredu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru mewn ysgolion);

(f) adran 110 o Ddeddf Addysg 2002 (gweithredu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad ag ysgolion meithrin etc);

(g) adrannau 116A i 116K o Ddeddf Addysg 2002 (cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4).

**Datgymhwyso gofynion asesu y cwricwlwm**

**2.** Mae'r deddfiadau a ganlyn wedi eu datgymhwyso am y cyfnod a bennir ym mharagraff 3—

(a) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004(**3**);

(b) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005(**4**);

(c) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015(**5**);

(d) Rhan 4 (a Rhan 1 i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 4) o Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015.

**Y cyfnod penodedig**

**3.** Y cyfnod penodedig yw'r cyfnod o 31 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 1 Mai 2021.

**Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad**

**4.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a

---

(**1**) O.S. 2014/1999 (Cy. 200).
(**2**) O.S. 2015/1596 (Cy. 195).
(**3**) O.S. 2004/2915 (Cy. 254).
(**4**) O.S. 2005/1394 (Cy. 108).
(**5**) O.S. 2015/1309 (Cy. 113).

chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy’n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(2) Bydd ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr eraill addysg feithrin a gyllidir yn parhau i wynebu beichiau ychwanegol, a all gyfyngu ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau yn llawn.

— Yn ystod y cyfnod penodedig gall fod angen i ysgolion a darparwyr bontio’n gyflym o un senario weithredol i un arall, gan sicrhau bod yr ystod lawn o ddysgu yn parhau i ddigwydd. Mae canllawiau wedi eu dyroddi gan Lywodraeth Cymru(**1**) ac yn rhanbarthol i helpu ysgolion a darparwyr i sicrhau y gall addysgu a dysgu barhau’n ddiogel a bod dysgu a chynnydd plant yn cael blaenoriaeth ym mhob senario weithredol.

— Bydd angen o hyd i’r ysgolion a’r darparwyr gefnogi plant o ganlyniad i’r tarfu i’w presenoldeb corfforol yn yr ysgol neu’r lleoliad. Gall y tarfu effeithio ar rai plant a bydd angen hyblygrwydd ar yr ysgolion a’r darparwyr o hyd er mwyn gallu buddsoddi amser i ddatblygu eu parodrwydd i ddysgu.

— Bydd angen i’r ysgolion a’r darparwyr barhau i ymateb i gynnydd mewn anghenion llesiant plant. Gall amser a dreulir i ffwrdd o’r ysgol neu’r lleoliad gael effaith negyddol ar lesiant rhai plant. Bydd angen yr hyblygrwydd ar yr ysgolion a’r darparwyr i allu buddsoddi amser i gefnogi llesiant plant, yn ogystal ag ymateb i amrywiaeth o anghenion llesiant a fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu hamser.

(3) Bydd ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr eraill addysg feithrin a gyllidir hefyd yn parhau i wynebu nifer o heriau logistaidd a fydd yn gosod mwy o feichiau gweinyddol a logistaidd arnynt, hyd yn oed pan fyddant yn gweithredu’n llawn ar y safle.

— Bu angen i’r ysgolion a’r darparwyr osod plant mewn grwpiau cyswllt a lleihau’r rhyngweithio rhwng plant mewn grwpiau cyswllt gwahanol. Mae hyn yn cyfyngu, i raddau helaeth, ar eu gallu i gymysgu staff a phlant. Gall hefyd ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a darparwyr feddwl yn wahanol, a mabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol, er mwyn sicrhau dysgu, ac adlewyrchu’r blaenoriaethau a nodir yng nghanllawiau

(**1**) ‘Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws’, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2021 a ‘Gwybodaeth ategol ar gyfer dysgu mewn ysgolion a lleoliadau o 15 Mawrth’, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021.

Llywodraeth Cymru(**1**). Gall hefyd gyfyngu ar eu gallu i ganiatáu i blant symud i rannau gwahanol o safle'r ysgol neu'r feithrinfa i gael mynediad at ystod lawn y cwricwlwm (e.e. ar gyfer gwyddoniaeth, addysg gorfforol, cerddoriaeth neu ddrama).

— Bydd angen i'r ysgolion a'r darparwyr barhau i amcangyfrif a rheoli risg wrth gynllunio eu gweithrediadau. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru(**2**) yn argymell y dylai ysgolion a darparwyr ystyried yr ystod lawn o ryngweithio a gweithgareddau sydd fel arfer yn digwydd ym mywyd ysgol neu feithrinfa er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws. Mae angen amser a hyblygrwydd ar yr ysgolion a'r darparwyr o hyd er mwyn gallu gweithredu'r cynlluniau hyn. Bydd angen i'r ysgolion a'r darparwyr hefyd fonitro ac ailwerthuso eu cynlluniau dros amser, gan ystyried unrhyw newidiadau pellach i'w gweithrediadau. Bydd y gofynion hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i'w beichiau gweinyddol arferol.

— Bydd angen i'r ysgolion a'r darparwyr barhau i reoli goblygiadau strategaeth "Profi Olrhain Diogelu" Llywodraeth Cymru(**3**). Gall y strategaeth hon ei gwneud yn ofynnol i grŵp cyswllt plentyn hunanynysu os yw'r plentyn yn profi'n bositif ar gyfer y coronafeirws. Mewn perthynas ag ysgolion uwchradd, mae canllawiau Llywodraeth Cymru(**4**) yn datgan y gall grŵp cyswllt y plentyn gynnwys grŵp blwyddyn gyfan y plentyn ac unrhyw un sydd wedi rhannu cludiant gyda'r plentyn hwnnw. Gall fod angen i aelodau o staff hunanynysu hefyd os ydynt wedi bod mewn cysylltiad agos â'r plentyn. Mae'r materion hyn yn golygu y gall fod cyfnodau maith pan fydd aelodau o staff a grwpiau o blant yn absennol. Bydd hyn yn achosi tarfu ac yn cael effaith glir ar allu'r ysgolion a'r darparwyr i gyflawni eu dyletswyddau yn llawn.

(4) Yn sgil amgylchiadau gweithredol y flwyddyn ddiwethaf a'r bylchau posibl yn y sylfaen dystiolaeth y mae ei hangen er mwyn gwneud dyfarniadau asesu terfynol ar gyfer diwedd cyfnod, ni fyddai ymgymryd â'r asesiadau sy'n ofynnol gan y Gorchmynion a restrir

---

(**1**) 'Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws', Llywodraeth Cymru, Ionawr 2021 a 'Gwybodaeth ategol ar gyfer dysgu mewn ysgolion a lleoliadau o 15 Mawrth', Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021.


(**2**) 'Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau o 12 Ebrill', Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021.

(**3**) 'Profi Olrhain Diogelu', Llywodraeth Cymru, Mai 2020, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(**4**) 'Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau o 12 Ebrill', Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021.

ym mharagraff 2 yn ystod y cyfnod penodedig yn darparu canlyniadau ystyrlon ar gyfer ysgolion a darparwyr, plant na rhieni o ran cynnydd y plentyn na'r cymorth y gallai fod arno ei angen.

(5) Am y rhesymau hyn, byddai cymhwyso'r dyletswyddau a ddisgrifir ym mharagraff 1, ar eu ffurf heb ei haddasu, a chymhwyso'r dyletswyddau ym mharagraff 2, yn gosod gofynion afrealistig ar ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr eraill addysg feithrin a gyllidir; byddai'n niweidio eu gallu i ymateb yn hyblyg ac yn effeithiol i'r heriau sy'n codi o ganlyniad i'r coronafeirws a'i effeithiau; a byddai'n debygol o gael effaith andwyol ar blant.



*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
22/04/2021